Arddangos Llwyddiant

CCUHP

Arddangos Llwyddiant

Dangos Llwyddiant a chynnyrch CCUHP

Mae model Dangos Llwyddiant yn ffordd newydd o fesur cynnydd a chanlyniadau plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Gellir defnyddio'r holl gynnyrch a grëwyd i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ochr yn ochr â model Dangos Llwyddiant. Isod ceir braslun o Dangos Llwyddiant a'i nodweddion allweddol. Cafodd hwn ei dalfyrru o http://demonstratingsuccess.co.uk/

Yn dilyn yr esboniad hwn ceir rhai dulliau a ffurflenni pro-forma. Cynlluniwyd y rhain er mwyn i chi eu defnyddio ar yr un pryd â'r cynnyrch CCUHP yr ydych yn dewis ei ddefnyddio gyda'r bobl ifanc y byddwch chi'n gweithio gyda nhw. Nid yw'r pro-formas hyn yn ddim mwy na chanllaw i'ch cynorthwyo i ymgyfarwyddo â Dangos Llwyddiant. Nid ydynt yn holl gynhwysfawr ac efallai yr hoffech ddyfeisio eich offerynnau personol ar gyfer mapio Dangos Llwyddiant ochr yn ochr â chynnyrch CCUHP. Ceir yma ddulliau ac offer i gefnogi ymyrraeth tymor byr, tymor canolig a thymor hir.

Dangos Llwyddiant

Seiliwyd y model Dangos Llwyddiant ar y dealltwriaeth fod pobl ifanc yn cyflawni llawer mwy drwy eu hymwneud â rhaglenni a pholisïau nag a fesurir ar hyn o bryd gan ddulliau mwy traddodiadol, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar fesurau asesu a chyrhaeddiad, megis TGAU. Bydd y model felly yn adnabod cynnydd, datblygiadau a llwyddiannau na fyddai wedi cael eu nodi cynt, yn arbennig wrth fesur datblygiad Sgiliau a Thueddiadau Cymdeithasol ac Emosiynol (SEDS).

Elfennau, gofynion allweddol, lefelau, dulliau ac ymyrryd

Datblygwyd y term Sgiliau a Thueddiadau Cymdeithasol ac Emosiynol (SEDS) er mwyn mynegi'r set o sgiliau o dan ystyriaeth sydd wedi cael eu gosod mewn pedwar parth neu elfen.

1. Rhyngweithio
2. Parch at eraill
3. Cymhelliant a mynd ati i gymryd rhan
4. Annibyniaeth.

Cafodd y pedair elfen eu rhannu ymhellach yn 3 neu 4 nodwedd allweddol fel y dangosir yn y tabl isod.

	Rhyngweithio	**Cymhelliant a mynd ati i gymryd rhan**	**Annibyniaeth**	**Parch at eraill**
Gofynion Allweddol	Gwrando ar eraill	Dangos parodrwydd i gymryd rhan	Rheoli ei deimladau	Derbyn pobl eraill
	Holi cwestiynau	Gwneud cyfraniad cadarnhaol i weithgaredd	Ymwybodol o'i hawliau ac yn cymryd cyfrifoldeb	Dangos empathi
	Defnyddio iaith y corff yn briodol	Gweld gwerth mewn cymryd rhan	Rheoli risg a deall y canlyniadau	Gweld gwerth mewn perthynas
	Cyfathrebu'n briodol ar lafar	Dangos gwydnwch	Bod yn unigolyn	

Arddangos Llwyddiant

Gosodwyd tair lefel i'r nodweddion allweddol, fel y dangosir isod

Lefel	**Y cyd-destun**	**Canllawiau**	**Yr Unigolyn**	**Myfyrio a gwerthuso**
1	Cyfarwydd	Wedi'i oruchwylio	Ymwybodol	Disgrifio gweithred
2	Llai cyfarwydd	Wedi'i gefnogi	Cymhwyso	Myfyrio a gwerthuso'i hunan
3	Anghyfarwydd	Heb ei gefnogi	Cefnogi eraill	Myfyrio a gwerthuso'i hunan ac eraill

Ceir llawer o ddulliau y gellir eu defnyddio ar gyfer cofnodi Sgiliau a Thueddiadau Cymdeithasol ac Emosiynol (SEDS) ymhlith y bobl ifanc y byddwch chi'n gweithio yn eu plith. Gall y rhain gynnwys

Arsylwi	Dyddiaduron
Dulliau creadigol	Cyfweliadau
Chwarae rôl	Hunan-asesu
Arolwg gan gyfoedion	Asesu ffurfiol

Gellir defnyddio'r dulliau mewn ymyrraeth tymor byr, tymor canolig a thymor hir. Wrth geisio dal cynnydd person ifanc yn nhermau SEDS, po hiraf y cyfnod y cesglir y data, mwyaf cywir fydd y data. Serch hynny, nid yw hyn bob amser yn ffordd ymarferol o weithio. O ganlyniad, rydym wedi datblygu rhai offerynnau ar gyfer casglu data y gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r cynnyrch CCUHP sydd yn gweddu orau i amserlen yr ymyrraeth. Er enghraifft, os ydych chi'n athro ysgol, efallai y bydd gennych fynediad i'r un bobl ifanc dros nifer o wythnosau. Felly, byddai'n addas defnyddio ymyrraeth tymor canolig neu hir. Ond os ydych yn gweithio gyda phobl ifanc dros gyfnod byrrach o amser, er enghraifft mewn cyd-destun addysgol anffurfiol, mae'n debygol y byddai'r offeryn ymyrraeth tymor byr yn fwy addas.

Arddangos Llwyddiant

CCUHP
Dangos
Llwyddiant a
chynnyrch CCUHP

Ymyrraeth Tymor Byr – holiaduron hunan-asesu

Gellir defnyddio'r ymyrraeth hon gan ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc dros gyfnod byr o amser. Mae'n cymryd ffurf holiadur cychwynnol a therfynol a gellir ei ddefnyddio fel hyn:

1. Mae'r ymarferwr yn dewis y cynnyrch CCUHP sydd fwyaf addas, yn ei farn ef, i'w ddefnyddio gyda'r bobl ifanc y bydd yn gweithio gyda hwy.
2. Mae'r ymarferwr yn rhoi'r holiadur cychwynnol i'w lenwi cyn dechrau'r gweithgaredd.
3. Mae'r ymarferwr yn defnyddio'r cynnyrch CCUHP mewn sesiwn gyda'r bobl ifanc.
4. Ar ddiwedd y sesiwn, rhydd yr ymarferwr yr holiadur terfynol i'r un bobl ifanc.
5. Mae'r ymarferwr yn cymharu'r ddau set o holiaduron (cychwynnol a therfynol) ac yn bwydo'r data i'r ffurflen werthuso tymor byr. Bydd hyn yn rhoi awgrym a fydd SEDS yr unigolion wedi gwaethygu, wedi aros yn yr unfan neu wedi gwella, o ganlyniad i ddefnyddio'r cynnyrch.

Ymyrraeth Tymor Canolig – trafodaeth un i un

Gellir defnyddio'r ymyrraeth hon gan ymarferwyr sy' gweithio gyda phobl ifanc dros gyfnod o amser canolig neu hir. Gall fod yn gyfuniad o arsylwi gan ymarferwr a chyfweliad un i un gyda'r person ifanc. Mae'r ail beth hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau fod y person ifanc yn cymryd rhan ganolog yn y broses. Defnyddir taflen arsylwi ar gyfer yr ymarferwr a thaflen gofnodi cyfweliad un i un fel a ganlyn:

1. Mae'r ymarferwr yn dewis y cynnyrch CCUHP sydd fwyaf addas, yn ei farn ef, i'w ddefnyddio gyda'r bobl ifanc y bydd yn gweithio gyda hwy.
2. Mae'r ymarferwr yn gofyn caniatâd pob un / rhai / un o'r bobl ifanc y mae'n gweithio gyda hwy i fesur eu SEDS.
3. Mae'r ymarferwr yn penderfynu cynnal arsylwad o'r bobl ifanc cyn defnyddio'r cynnyrch CCUHP ac yn ei gofnodi ar y ffurflenni arsylwi.
4. Mae'r ymarferwr yn cynnal cyfweliad un i un gyda'r bobl ifanc.
5. Mae'r ymarferwr yn defnyddio'r cynnyrch CCUHP mewn sesiwn gyda'r bobl ifanc.
6. Yn ystod y sesiwn, mae'r ymarferwr yn arsylwi'r bobl ifanc ac wedyn mae'n cofnodi'r arsylwadau ar y ffurflenni arsylwi.
7. Mae'r ymarferwr yn cynnal cyfweliad un i un gyda'r bobl ifanc wedi'r sesiwn ac yn cofnodi canfyddiadau ar ffurflen Trafodaeth Un i Un.
8. Penderfyna'r ymarferwr pryd y dylai ddefnyddio'r cynnyrch gyda'r grŵp eto.
9. Mae'r ymarferwr yn arsylwi / cynnal cyfweliadau gyda'r bobl ifanc yn y cyfnod cyn defnyddio'r cynnyrch eilwaith.
10. Mae'r ymarferwr yn defnyddio cynnyrch CCUHP eilwaith.
11. Mae'r ymarferwr yn arsylwi'r bobl ifanc yn ystod y sesiwn ac yn cofnodi arsylwadau ar ffurflen Arsylwi Un i Un
12. Mae'r ymarferwr yn cynnal rhagor o gyfweliadau un i un gyda'r bobl ifanc ac yn cofnodi'r canlyniadau ar ffurflenni Trafodaeth Un i Un.
13. Mae'r ymarferwr yn cymharu datblygiad y person ifanc cyn, yn ystod ac ar ôl defnyddio'r cynnyrch CCUHP ac yn nodi hyn ar ffurflen werthuso Ymyrraeth Tymor Canolig.

Arddangos Llwyddiant

Ymyrraeth tymor hir

Dyddiaduron

Byddai'n bosib defnyddio'r rhain ar y cyd â'r ymyrraeth tymor canolig fel offeryn i ddwyn gwybodaeth i gof er mwyn sbarduno trafodaethau. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar adlewyrchiadau'r person ifanc o'u profiadau a'u dysgu eu hunain a gallant gynnwys dyddiaduron personol; dyddiaduron fideo; dyddiaduron adlewyrchol; 'viva' llafar wedi'i hwyluso (y rhan perfformio).

Gallent hefyd gynnwys llyfrau lloffion gyda lluniau, deunydd wedi'i dorri allan, nodiadau ac ati neu ddyddiaduron/ blogiau ar-lein lle gallant uwchlwytho fideos, lluniau, gwobrau sy'n bwysig iddyn nhw. Byddai'n anarferol iawn i'r dyddiadur gael ei asesu neu ei drosglwyddo.

They could be used as follows:

1. Mae'r ymarferwr yn dewis y cynnyrch CCUHP sy'n addas, yn ei dyb ef, i'w ddefnyddio gyda'r bobl ifanc y mae'n gweithio gyda hwy.
2. Mae'r ymarferwr yn dilyn cyfarwyddiadau ymyrraeth tymor canolig rhifau 2 – 12.
3. Mae'r ymarferwr yn gofyn i'r bobl ifanc ddewis dull yr hoffent gadw cofnod o'u profiad. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio fel cymorth i sbarduno trafodaeth yn y cyfweliadau un i un.
4. Mae'r ymarferwr yn cymharu datblygiad y person ifanc cyn, yn ystod ac ar ôl defnyddio'r cynnyrch CCUHP ac yn nodi hyn ar ffurflen werthuso Ymyrraeth Tymor Canolig/Hir. Oherwydd bod hyn wedi digwydd dros gyfnod hir, gellir defnyddio rhagor o ffurflenni cyfweld, cofnodi a gwerthuso.

Pro-forma Dangos Llwyddiant:

Ymyrraeth Tymor Byr:
Holiadur Hunan-asesu cychwynnol
Holiadur Hunan-asesu terfynol
Ffurflen Werthuso Tymor Byr

Ymyrraeth Tymor Canolig:
Ffurflenni arsylwi
Awgrymiadau am gwestiynau cyfweliad un i un
Ffurflenni cofnodi cyfweliad un i un
Ffurflen Werthuso Tymor Canolig/Hir

Ymyrraeth Tymor Hir
Yr un peth ag Ymyrraeth Tymor Canolig, gan ddefnyddio dyddiaduron i gynorthwyo gyda'r cyfweliadau un i un.

Arddangos Llwyddiant

Arddangos Llwyddiant: Ymyrraeth tymor canolig / hir – cyfweliadau unigol Taflen gofnodi

Enw **Staff**	**Dyddiad**

Lleoliad a chyd-destun y sesiwn arsylwi (e.e. ble, pa weithgaredd?)

Cwestiynau	Nodiadau cyfweliad

Arddangos Llwyddiant

Arddangos Llwyddiant

Ymyrraeth tymor canolig / hir – cyfweliadau unigol

Cwestiynau a awgrymir

1. A oeddet ti'n deall?
2. Sut oedd hynny'n gwneud i ti deimlo?
3. Wyt ti'n teimlo dy fod ti wedi dysgu rhywbeth?
4. Beth wyt ti wedi ei ddysgu?
5. Pa mor heriol oedd y dasg?
6. Pa mor hawdd oedd y dasg?
7. Wyt ti'n gallu esbonio pam roedd hynny'n ddefnyddiol?
8. Sut alli di ddefnyddio hyn?
9. Wyt ti'n gallu dweud wrthyf sut y galli di ddefnyddio hyn.
10. A yw hi'n well gen ti weithio ar dy ben dy hunan neu mewn grŵp?
11. Beth oedd yn anodd?
12. Beth oedd yn hawdd?
13. Wyt ti'n gallu gweld pwrpas hyn?
14. Sut y gallwn i / y gallet ti fod wedi gwneud hyn yn wahanol?
15. Wyt ti'n gallu gweld amcan hyn?
16. Wyt ti'n deall pam ein bod ni wedi gwneud hyn?
17. Oeddet ti'n teimlo dy fod wedi cael digon o gefnogaeth?
18. Oedd yr wybodaeth yn ddigon clir?
19. Sut y gallwn i fod wedi gwneud hyn yn fwy diddorol?
20. Wnest ti fwynhau?
21. Beth oedd yn ei wneud yn ddiddorol i ti?
22. Oeddet ti'n teimlo'n gyfforddus yn yr awyrgylch hwn?
23. A oedd dy sylw di ar y dasg neu yn rhywle arall? Pam?
24. Beth oedd wedi dy helpu i gyflawni'r canlyniad hwnnw?
25. Roeddet ti i weld yn canolbwyntio'n ddwys ar y dasg. Beth wyt ti'n meddwl a oedd yn dy helpu i wneud hynny?
26. Sut fyddet ti'n disgrifio i rywun arall beth rwyt ti newydd ei wneud?

Arddangos Llwyddiant

CCUHP

Taflen werthuso ymyrraeth tymor canolig / hir.

Arddangos Llwyddiant:
Taflen werthuso ymyrraeth tymor canolig / hir.

Enw **Enw Staff**	**Dyddiad 1** **Dyddiad 2**

Lleoliad a chyd-destun y sesiwn arsylwi (e.e. ble, pa weithgaredd?)

Rhyngweithio (Mae'n gallu: gwrando ar eraill; holi cwestiynau; defnyddio iaith gorfforol addas; defynddio cyfathrebu llafar addas)
Sbarduno a chymryd rhan (Mae'n gallu: arddangos parodrwydd i gymryd rhan; gwneud cyfraniad cadarnhaol i weithgaredd; gweld gwerth mewn cymryd rhan; dangos gwytnwch)
Annibyniaeth (Mae'n gallu: rheoli teimladau personol; adnabod hawliau a chymryd cyfrifoldeb dros weithredoedd; rheoli risg a deall canlyniadau; dangos annibyniaeth)
Parch at eraill (Mae'n gallu: derbyn eraill; ymarfer empathi; gwerthfawrogi perthynas)

Elfen	Sesiwn 1 (Cylch)	Sesiwn 2 (Cylch)	Nodiadau
Rhyngweithio	Lefel 1 Lefel 2 Lefel 3	Lefel 1 Lefel 2 Lefel 3	
Cymhelliant	Lefel 1 Lefel 2 Lefel 3	Lefel 1 Lefel 2 Lefel 3	
Annibyniaeth	Lefel 1 Lefel 2 Lefel 3	Lefel 1 Lefel 2 Lefel 3	
Parch at eraill	Lefel 1 Lefel 2 Lefel 3	Lefel 1 Lefel 2 Lefel 3	

Sesiwn 1

Arwyddwyd gan .....(person ifanc)

Arwyddwyd gan..... (staff/mentor)

Sesiwn 2

Arwyddwyd gan .....(person ifanc)

Arwyddwyd gan..... (staff/mentor)

Arddangos Llwyddiant

CCUHP

Taflen werthuso ymyrraeth tymor canolig / hir.

Arddangos Llwyddiant –
Taflen werthuso ymyrraeth tymor canolig / hir.

Enw **Enw Staff**	**Dyddiad 1**

Lleoliad a chyd-destun y sesiwn arsylwi (e.e. ble, pa weithgaredd?)

Elfen	**Nodiadau arsylwi**
Rhyngweithio (Mae'n gallu: gwrando ar eraill; holi cwestiynau; defnyddio iaith gorfforol addas; defynddio cyfathrebu llafar addas)	
Cymhelliant a chymryd rhan (Mae'n gallu: arddangos parodrwydd i gymryd rhan; gwneud cyfraniad cadarnhaol i weithgaredd; gweld gwerth mewn cymryd rhan; dangos gwytnwch)	
Annibyniaeth (Mae'n gallu: rheoli teimladau personol; adnabod hawliau a chymryd cyfrifoldeb dros weithredoedd; rheoli risg a deall canlyniadau; dangos annibyniaeth)	
Parch at eraill (Mae'n gallu: derbyn eraill; dangos empathi; gwerthfawrogi perthynas)	

Arddangos Llwyddiant

UNCRC
Gwerthusiad
Ymyrraeth
Tymor Byr

Arddangos Llwyddiant – Gwerthusiad Ymyrraeth Tymor Byr
Cynnyrch CCUHP:
Enw'r person ifanc:
Enw aelod o staff:

Gweithio gydag eraill	**Dirywiodd**	**Arhosodd yr un peth**	**Gwellodd**
Rwy'n mwynhau gweithio gydag eraill			
Rwy'n gallu gofyn cwestiynau os nad ydw i'n deall			
Rwy'n hoffi gwrando ar eraill			

Cymhelliant a chymryd rhan	**Dirywiodd**	**Arhosodd yr un peth**	**Gwellodd**
Rwy'n mwynhau cymryd rhan			
Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig fy mod i'n cymryd rhan			
Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig fy mod i'n cymryd rhan			

Parch at eraill	**Dirywiodd**	**Arhosodd yr un peth**	**Gwellodd**
Gallaf weithio gydag eraill fel rhan o dîm			
Rwy'n parchu barn pobl eraill hyd yn oed os nad ydw i'n cytuno			
Gallaf anghytuno heb gweryla			

Annibynniaeth	**Dirywiodd**	**Arhosodd yr un peth**	**Gwellodd**
Rwy'n hoffi gweithio ar fy mhen fy hun			
Rwy'n gwybod beth ddylwn ei wneud ac rwy'n mynd ati			
Rwy'n gwybod am fy hawliau			

Arddangos Llwyddiant

CCUHP

Ffurflen Adborth Arddangos Llwyddiant – Diwedd

Deunyddiau CCUHP
Ffurflen Adborth Arddangos Llwyddiant – Diwedd

Enw:

Llenwch y ffurflen hon ar ddechrau'r sesiwn os gwelwch yn dda. Rhowch gylch o gwmpas yr wyneb sydd yn fwyaf tebyg i'r ffordd rydych chi'n ei deimlo.

Gweithio gydag eraill

Rwy'n mwynhau gweithio gydag eraill

Rwy'n gallu gofyn cwestiynau os nad ydw i'n deall

Rwy'n hoffi gwrando ar eraill

Cymhelliant a chymryd rhan

Rwy'n mwynhau cymryd rhan

Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig fy mod i'n cymryd rhan

Rwy'n cymryd rhan hyd yn oed os yw'r dasg yn anodd

Parch at eraill

Gallaf weithio gydag eraill fel rhan o dîm

Rwy'n parchu barn pobl eraill hyd yn oed os nad ydw i'n cytuno

Gallaf anghytuno heb gweryla

Annibyniaeth

Rwy'n hoffi gweithio ar fy mhen fy hun

Rwy'n gwybod beth ddylwn ei wneud ac rwy'n mynd ati

Rwy'n gwybod am fy hawliau

Arddangos Llwyddiant

Demonstrating Success –
Demonstrating Success Feedback Form – Beginning

Enw:

Llenwch y ffurflen hon ar ddechrau'r sesiwn os gwelwch yn dda. Rhowch gylch o gwmpas yr wyneb sydd yn fwyaf tebyg i'r ffordd rydych chi'n ei deimlo.

Gweithio gydag eraill

Rwy'n mwynhau gweithio gydag eraill

Rwy'n gallu gofyn cwestiynau os nad ydw i'n deall

Rwy'n hoffi gwrando ar eraill

Cymhelliant a chymryd rhan

Rwy'n mwynhau cymryd rhan

Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig fy mod i'n cymryd rhan

Rwy'n cymryd rhan hyd yn oed os yw'r dasg yn anodd

Parch at eraill

Gallaf weithio gydag eraill fel rhan o dîm

Rwy'n parchu barn pobl eraill hyd yn oed os nad ydw i'n cytuno

Gallaf anghytuno heb gweryla

Annibyniaeth

Rwy'n hoffi gweithio ar fy mhen fy hun

Rwy'n gwybod beth ddylwn ei wneud ac rwy'n mynd ati

Rwy'n gwybod am fy hawliau